



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

### Cofnodion 4<sup>ydd</sup> Rhagfyr 2020

| <b>Yn bresennol:</b>        |   |  |
|-----------------------------|---|--|
| <b>Enw</b>                  | <b>Teitl</b>  | <b>Sefydliad</b>                           |
| Mark Brace (MB)             | Comisiynydd Cynorthwyol   | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Rob Thomas (RT)             | Rheolwr Gyfarwyddwr   | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| Chris Hadfield (CH)         | Rheolwr Grŵp  | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru           |
| Fiona Kinghorn (FK)         | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd                                    | BIP Caerdydd a'r Fro                       |
| Abigail Harris (AH)         | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio                            | BIP Caerdydd a'r Fro                       |
| Charles Janczewski (CJ)     | Cadeirydd y BIP   | BIP Caerdydd a'r Fro                       |
| Tim Morgan (TM)             | Uwch-arolygydd  | Heddlu De Cymru                            |
| Emil Evans (EE)             | Is-brifathro  | Coleg Caerdydd a'r Fro                     |
| Judith Cole (JC)            | Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol | Lywodraeth Cymru                           |
| Rachel Connor (RC)          | Cyfarwyddwr Gweithredol   | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)    |
| Hannah Williams (HW)        | Pennaeth De Cymru Un  | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol            |
| Nadia De Longhi (ND)        | Rheolwr Gweithrediadau  | Cyfoeth Naturiol Cymru                     |
| <b>Hefyd yn bresennol:</b>  |   |  |
| Tom Bowring (TB)            | Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes  | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| Helen Moses (HM)            | Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth   | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| Joanna Beynon (JB)          | Swyddog Polisi  | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| David Davies                | Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles                                  | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| <b>Ymddiheuriadau:</b>      |   |  |
| Paula Ham (PH)              | Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau   | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| Y Cyngorydd Neil Moore (NM) | Arweinydd   | Cyngor Bro Morgannwg                       |
| Mike Evans (ME)             | Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De                                     | Cyfoeth Naturiol Cymru                     |
| Huw Jakeway (HJ)            | Prif Swyddog Tân  | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru           |

| Eitemau'r Agenda   | Camau Gweithredu |
|--|------------------|
| <p><b>1. Croeso a chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd MB bawb i gyfarfod rhithwir y BGC.</p>   |                  |
| <p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>   |                  |
| <p><b>3. Cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2<sup>il</sup> Hydref 2020</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p>Hysbysodd FK bartneriaid fod gwariant arian y blynyddoedd cynnar ac atal ar gyfer 2019/20 a 2021/22 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Tynnodd TB sylw at y ffaith bod cyfarfod wedi'i drefnu rhyngddo ef a Cath Doman yn dilyn cyfarfod blaenorol y BGC yn ddiweddarach yn y mis. Mae gwaith wedi dechrau i fapio'r aliniad rhwng ffrydiau gwaith y BGC a'r BPRh. Bydd datblygiadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Chwefror.</p>  | <p><b>TB</b></p> |
| <p><b>4. Arian Cyfoeth Naturiol Cymru</b></p> <p>Diolchodd HM i CNC eto am y cyllid a hysbysodd y partneriaid bod cais y BGC am £25 mil wedi bod yn llwyddiannus. Cadarnhaodd ND fod y cais wedi'i gymeradwyo a bod gwaith yn gallu dechrau, dylid derbyn y llythyr cadarnhau yn ystod y dyddiau nesaf. Dyfarnwyd £20 mil o'r arian i adeiladu lloches addysg awyr agored Colcot, mae angen caniatâd cynllunio bellach ond mae arweinwyr y prosiect yn hyderus y bydd hyn yn cael ei ddyfarnu'n fuan. Bydd HM yn dod â diweddariad cynnydd i gyfarfod nesaf y BGC.</p> <p>Gan fod yr arian hwn yn debygol o fod yn barhaus, awgrymodd ND y dylai partneriaid ddechrau meddwl am yr hyn yr hoffai'r BGC wneud cais amdano'r flwyddyn nesaf. Cytunodd RT a nododd y byddai'n ddefnyddiol pe gall y BGC alinio cyllid yn y dyfodol ag amcanion a blaenoriaethau'r bwrdd er mwyn ychwanegu gwerth.</p>   | <p><b>HM</b></p> |
| <p><b>5. Diweddariad COVID-19</b></p> <p>Hysbysodd FK bartneriaid ar y cyfraddau COVID-19 diweddaraf yng Nghaerdydd a'r Fro, gan esbonio cynnydd mewn achosion gyda'r gyfradd yn y Fro yn codi'n nes at gyfradd Caerdydd. Adroddwyd bod cyfradd yr haint ddoe (03/12/2020) ar gyfer y Fro yn 184.1 fesul 100,000 dros y cyfnod o 7 diwrnod. Y darlun cyffredinol yw cynnydd araf a chyson o ledaeniad wedi'i wreiddio gyda chlystyrau bach ar draws y Fro.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu cynnydd yn nifer yr achosion yn Ninas Powys ar ddiwedd Tachwedd, sy'n cael ei archwilio.</li> <li>• Ar hyn o bryd dim ond ychydig o gartrefi gofal sydd ar draws Caerdydd a'r Fro gydag achosion gweithredol, 5 yn y Fro.</li> <li>• Bu achosion yn yr ysgol arbennig ym Mhenarth, ond mae cydweithwyr iechyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol i reoli'r achosion.</li> <li>• Bu gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n cyflwyno COVID-19 yn yr Uned Achosion Brys, ond mae meddiannu gwelyau yn broblem.</li> </ul> |                  |

Bu datblygiadau gwych o ran profi a bydd canolfan brofi leol yn cael ei hagor ym maes parcio Canolfan Chwaraeon Colcot yn y Barri erbyn canol mis Rhagfyr. Cafwyd datblygiadau profi llif ochrol hefyd, y disgwylir iddynt fynd yn fyw ar ôl y cynlluniau peilot ganol mis Rhagfyr.

Mae'r brechlyn Pfizer bellach wedi'i gymeradwyo sy'n ddatblygiad cadarnhaol iawn. Rydym yn aros ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi pryd y gall brechiadau ddechrau ar lefel leol gyda'r grŵp blaenoriaeth cyntaf. Bydd cyfathrebu lleol a cenedlaethol ar hyn a fydd yn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd gan y gallai gymryd amser i'r brechlyn gyrraedd y cyhoedd. Mae 975 o frechlynnau ar gael yn yr wythnos gyntaf ar draws Caerdydd a'r Fro. Efallai caiff brechlyn Rhydychen ei gymeradwyo a'i ddarparu tua mis Ionawr, mae'n haws storio'r brechlyn hwn gan ei fod wedi'i leoli mewn oergell.

Ategodd RT y gwaith da ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd gan Gyngor Bro Morgannwg, cydweithwyr cyngor Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd a'r datblygiadau cadarnhaol o ran sicrhau bod lleoedd ar gael ar gyfer profi a brechu lleol. Bydd cyfathrebu'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol nad ydym eto mewn sefyllfa bywyd normal er bod brechlyn ar gael.

Mae gwaith partneriaeth y cytunwyd arno gan MB wedi bod yn wych ac awgrymodd y gallai sefydliadau adolygu sut y bu hyn mor llwyddiannus, a pha fecanweithiau sydd wedi caniatáu i hyn ddigwydd, er mwyn sicrhau y gallwn adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd DD i bartneriaid iechyd am eu gwaith ar yr achosion yn yr ysgol arbennig. Cafwyd adborth gwych gan yr ysgol ar sut y cafodd staff, myfyrwyr a theuluoedd eu trin.

Diolchodd FK i bartneriaid am eu gwaith gwych mewn partneriaeth ar y cyd gyda diolch yn arbennig i Gyngor Bro Morgannwg am y gwaith ar safleoedd brechu torfol. Bydd y safle cychwynnol yn Sblot lle gall staff Caerdydd a'r Fro fynychu, mae Home View a chanolfan Hamdden Pentwyn yn ddau safle arall a nodwyd.

Holodd MB faint o bigiadau oedd eu hangen gyda'r brechlyn cymeradwy. Cadarnhaodd FK fod angen 2 ddos gyda'r brechlyn Pfizer gydag isafswm o 28 diwrnod rhwng dosau. Byddai brechlyn Rhydychen yn gofyn am 2 ddos gyda 21 diwrnod rhwng yr ail ddos. Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ymgyrch sy'n seiliedig ar 4 math o farn am frechlynnau COVID: derbyn, petruso, gwrthsefyll a gwrthwynebu. Mae rhai aelodau o'r cyhoedd yn poeni am y cyflymder y mae'r brechlyn wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo, ond cynhaliodd MHRA brosesau adolygu helaeth yn eu barn am gyflymder.

Darparodd HW ddiweddariad gan y gwasanaeth prawf yn nodi bod y gwasanaeth yn dal i weithio o dan fodel cyflenwi eithriadol. Mae mwy o staff bellach yn ynysu, ond mae lefelau staff yn parhau i fod yn hylaw. Mae'r broses o ryddhau pobl yn ôl i'r cyhoedd o garchar Caerdydd yn cael ei rheoli ond mae'n anhygoel o gymhleth.

Diweddarodd TM bartneriaid ar sefyllfa'r heddlu lle mae lefelau staffio wedi aros yn sefydlog er bod rhai aelodau'n ynysu. Mae'r heddlu'n parhau i ddelio â materion cymhleth mewn canolfannau siopa a phobl sy'n teithio ar draws y ffiniau i fanteisio ar gyfreithiau Cymru. Mae 164 o hysbysiadau cosb sefydlog wedi'u cyflwyno ledled Caerdydd a'r Fro. Adeiladwyd perthynas waith gadarnhaol ar y cyd â'r boblogaeth myfyrwyr.

## **6. Gohebiaeth oddi wrth y Comisiynydd Plant**

Hysbysodd DD y partneriaid bod 2 adroddiad wedi'u derbyn yn ddiweddar oddi wrth y Comisiynydd Plant. Amlinellodd DD y broses a chanfyddiadau arolwg Coronafeirws a Fi Cymru'r Comisiynydd lle ymatebodd dros 1,000 o bobl ifanc o'r Fro. Mae ffeithlun sy'n dangos canfyddiadau allweddol y Fro wedi'i rannu i bartneriaid. Darparodd DD drosolwg o'r sefyllfa yn y Fro yn erbyn canfyddiadau allweddol yr arolwg, a'r rhain yw:

### Pryderon am golli addysg

Roedd hyn yn cadarnhau canfyddiadau o ffynonellau eraill. Roedd llawer o heriau i ddechrau, gyda dysgu ar-lein yn estron i lawer o athrawon a myfyrwyr ond mae llawer o waith wedi'i wneud gan y bydd dysgu cyfunol yn rhan anochel o ddarpariaeth addysg wrth symud ymlaen. Roedd allgáu digidol hefyd yn bryder mawr ar ddechrau'r cyfyngiadau symud gyda phobl ifanc heb y pecyn TGCh gartref. I ddechrau, rhoddwyd 650 o ddyfeisiau i blant a dosbarthwyd tua 200 o ddyfeisiau ychwanegol i ddarparu band eang i fyfyrwyr a eithriwyd yn ddigidol gartref. Mae'r gwaith hwn yn parhau gyda dros 4,000 o ddyfeisiau'n cael eu prynu i helpu i fynd i'r afael â'r anghenion.

### Colli ffrindiau/cymdeithasu

Agorwyd 4 ysgol drwy gydol yr haf i ddarparu darpariaeth hyb ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed a rhai gweithwyr allweddol. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â phlant sy'n agored i niwed. Sefydlodd Tîm Chwarae'r Cyngor ddarpariaeth ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed drwy gydol gwyliau'r haf, ac roedd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant sydd ag anabledau.

### Yr effaith ar lesiant

Bu pryderon ynghylch sut mae'r cyfyngiadau cloi wedi effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc. Mae cynllun iechyd meddwl eisoes ar waith gyda phwyslais ar ymyriadau therapiwtig. Mae gwaith y Tîm Lles Ieuenctid wedi parhau drwyddi draw ac mae llawer o waith ychwanegol wedi'i wneud gyda staff yr ysgol ar sut i fynd at bobl ifanc wrth iddynt dychwelyd i'r ysgol, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

### Risgiau i grwpiau sy'n agored i niwed

Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Gwasanaethau Plant i nodi'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed er mwyn sicrhau y gallent gael mynediad i hybiau'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau cloi. Defnyddiwyd system CAG i raddio'r holl bobl ifanc hysbys sy'n agored i niwed a oedd â chysylltiad wythnosol â'r Gwasanaeth Ieuenctid.

### Pryderon am bontio rhwng ysgolion

Roedd myfyrwyr Blwyddyn 6 a'u rhieni, yn enwedig myfyrwyr sydd ag ADY, yn pryderu am drosglwyddo ysgolion ym mis Medi. Lle y bo'n bosibl, trefnwyd ymweliadau corfforol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed neu'r rhai sydd ag ADY, datblygodd rhai ysgolion ddeunyddiau pontio ar-lein hefyd. Yn ystod y cyfnod dychwelyd i'r ysgol o 3 wythnos ym mis Gorffennaf, blaenoriaethwyd grwpiau agored i niwed a'r rhai a oedd yn gadael blwyddyn 6 er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr ffarwelio â myfyrwyr a staff.

Nododd FK fod cyflwyniad DD a oedd yn tynnu sylw at faterion i weithio arnynt gyda'i gilydd yn y meysydd signalu'r arena adfer iechyd meddwl, ar gyfer ffocws allweddol y flwyddyn nesaf ac adnoddau y mae angen eu rhannu ag ysgolion ar iechyd meddwl. Mae'r BPRh yn gwneud gwaith sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl. Amlygodd AH yn dilyn cyflwyniad Cath Doman ar yr BPRh yng nghyfarfod diwethaf y BGC, mae'r BPRh yn symud i 3 maes gwaith. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'r arena Dechrau'n Dda. Mae'n bwysig bod

|   |                     |
|---|---------------------|
| <p>hyn yn dylanwadu ar ein dysgu a'n hymateb yn y tymor hir. Mae AH eisoes wedi rhannu gyda gwaith y BGC gan Fwrdd Iechyd Caergaint yn Seland Newydd a rannodd eu gwaith adfer gydag ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a chydweithwyr iechyd yn dilyn daeargryn. Efallai y bydd dysgu cymryd o'r gwaith hwn, bydd AH yn codi hyn drwy'r BPRh.</p> <p>Awgrymodd MB y gallai gynnal sesiwn BGC arall gyda phobl ifanc, fel y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020 ar newid yn yr hinsawdd. Gofynnodd MB a ellid mynd ar ôl y gwaith hwn gyda'r BGC a'r BPRh. Cytunodd AH y byddai'r gwaith hwn yn cysylltu â gwaith y BPRhau.</p> <p>Aeth DD ymlaen i roi trosolwg o Siarter y Comisiynydd 'Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant Cymru rhag effaith tlodi'. Cyhoeddwyd y Siarter ar ddiwedd 2019 ond bu gwaith ar unwaith o ran COVID-19 fu'r ffocws. Cyn y cyfyngiadau cloi roedd tua 2,900 o bobl ifanc yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, erbyn hyn mae'r ffigwr hwn yn nes at 3,700, cynnydd canrannol sylweddol yn y dangosydd dirprwyol hwn ar gyfer tlodi. Amlinellwyd argymhellion allweddol y Siarter yn y cyflwyniad sy'n ymdrin â: sicrhau mynediad i brydau ysgol am ddim a bod gan berson ifanc ddigon o arian ar gyfer pryd cytbwys maethlon, sicrhau bod brecwast am ddim ar gael i bob teulu sydd ei angen, gan sicrhau bod Taliad Tai dewisol yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gynorthwyo teuluoedd sy'n byw ar incwm isel a chost y diwrnod ysgol. Amlinellodd DD waith sydd eisoes ar fynd i ddatblygu'r argymhellion hyn a'r gwaith gwych a wnaed dros y cyfyngiadau cloi er mwyn sicrhau bod pobl ifanc, sydd mewn perygl o beidio â bwyta, yn cael eu bwydo. Mae Pwyllgor Craffu Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud darn penodol o waith sy'n archwilio cost y diwrnod ysgol.</p> <p>Tynnodd TB sylw at rai o'r pynciau hyn wedi'u cynnwys yn Asesiad Effaith Cymunedol y Fro a rannwyd yn flaenorol gyda phartneriaid y BGC.</p> | <p><b>AH</b></p>    |
| <p>Croesawodd RC y Siarter a'i hargymhellion a hysbysodd bartneriaid bod angen y mecanweithiau ar waith er mwyn i ysgol gyfeirio at ddarpariaeth trydydd sector fel y gwasanaeth rhannu bwyd yn CF61 er mwyn helpu i sicrhau bod rhieni'n gwybod am y gwasanaethau hyn ac yn gallu cael gafael arnynt os oes angen. Croesawodd DD y cyfle i rannu cyfathrebiadau o'r trydydd sector i ysgolion.</p> <p>Nododd AH yr angen i ystyried y cam Dechrau'n Dda o waith y BPRh sy'n cynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed. Mae angen cyfleoedd ymgysylltu i gyrraedd pobl ifanc ar draws y sectorau a allai ei chael hi'n anodd adfer, fel manwerthu, sy'n aml yn denu pobl ifanc. Mae'r cynllun Kick Start yn ddefnyddiol iawn ac awgrymodd y dylai partneriaid ymchwilio i'r cynllun i helpu pobl ifanc sy'n chwilio am waith drwy'r dull hwn. Hysbysodd DD bartneriaid fod y ffigyrau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant (NEET) wedi gostwng yn y Fro, mae gwaith yn mynd rhagddo i archwilio pam. Mae rhaglenni eisoes ar waith sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Ieuenctid megis Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio. Mae Kick Start yn gyfle da ond dim ond am gyfnod o 6 mis y mae ar gael i bobl ifanc. Cytunodd EE fod y ffigyrau NEET yn bwynt pwysig gan fod y coleg wedi rhagori ar y targed cofrestru. Mae EE yn wylidwrus o ran sawl cyfle gwaith sydd ar gael i'r rhai sy'n gorffen cyrsiau, mae pryder gwirioneddol ynghylch cyfleoedd i bobl ifanc. Mae angen gwneud gwaith gyda diwydiannau i helpu i leddfu'r effeithiau ar bobl ifanc.</p>   | <p><b>RC/DD</b></p> |
| <p>Croesawodd DD unrhyw wybodaeth am waith sy'n digwydd yn gysylltiedig â'r meysydd argymhell er mwyn helpu i gryfhau'r dystiolaeth o'r hyn sy'n mynd rhagddo yn y Fro, i'w</p>   | <p><b>Pawb</b></p>  |

|  |  |
|--|--|
| <p>chynnwys yn yr ymateb i'r Siarter sydd i'w chyflwyno ym mis Ionawr. Os ywartneriaid yn ymwybodol o unrhyw beth y gellir ei gynnwys yn yr ymateb gofynnir iddynt anfon y rhain at HM.</p>  |  |
| <p><b>7. Cynllun Diogelu'r Gaeaf</b></p> <p>Cyflwynodd AH i bartneriaid y pwyntiau allweddol o Gynllun Diogelu'r Gaeaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2020/21. Tynnodd AH sylw at y ffaith bod Cynllun Diogelu'r Gaeaf y Bwrdd yn cydnabod y bydd y gaeaf hwn yn un arbennig o anodd a bydd angen i wasanaethau ddod at ei gilydd i ymateb i fygythiadau a phroblemau. Mae'r Cynllun yn cysylltu â'r Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng. Dyfarnwyd £1.35 miliwn i BPRh Caerdydd a'r Fro gan Lywodraeth Cymru, ond cyfanswm y cynlluniau yw £2.77m, gofynnwyd am £1.42m arall gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau'n cwmpasu amrywiaeth o raglenni er mwyn bod yn fwy gwydn drwy'r gaeaf. Mae'r cynlluniau'n nodi'r gweithgaredd a fwriadwyd wrth fynd i'r afael â phob un o'r 6 nod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nod 1: Cydgyssylltu, cynllunio a chefnogi grwpiau risg uchel</li> <li>• Nod 2: Cyfeirio gwybodaeth a chymorth i bawb</li> <li>• Nod 3: Atal derbyn a grwpiau risg uchel</li> <li>• Nod 4: Ymateb cyflym mewn argyfwng</li> <li>• Nod 5: Gofal ysbyty gwych</li> <li>• Nod 6: Cartref yn gyntaf pan fyddant yn barod</li> </ul> <p>Hysbysodd AH bartneriaid y bu mwy o ddefnydd o'r pigiad ffliw eleni yn ôl y disgwyl. Mae'r pigiad ffliw wedi'i ymestyn i fod ar gael i unrhyw un dros 50 oed. Byddai AH yn croesawuartneriaid sy'n rhannu cyfathrebiadau i hyrwyddo'r pigiadau ffliw. Mae lefelau presenoldeb unedau brys bellach yn ôl i'r lefelau arferol er gwaethaf y gostyngiad a brofir yn y cyfyngiadau cloi.</p> <p>Mae hyd yr arosiadau ar gyfer y rhai dros 75 oed yn allanol yn y rhanbarth o'i gymharu â hyd yr arosiadau yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd ffocws ar hyd estynedig yr arena arhosiad. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlinellu sut y caiff yr effaith ei mesur a sut y caiff yr adnoddau eu defnyddio. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar y bwlch yn y cyllid sy'n cael ei lenwi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r risgiau'r gaeaf hwn yn sylweddol iawn, fel arfer yn yr ychydig ddyddiau cyn y Nadolig mae cleifion yn cael eu rhyddhau'n sylweddol y tu allan i'r ysbyty, ond disgwylir i hyn fod yn wahanol iawn eleni. Bydd y system o dan bwysau, ond mae cydweithwyr yn parhau i weithio'n eithriadol o galed i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty os oes modd ac i gael cleifion i gael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl. Mae allyriadau ysbytai yn cynyddu yn unol â phenawdau cynharach FK o ganlyniad i COVID-19. Diolchodd CJ i AH am y wybodaeth a nododd yr effeithiau y mae'r pwysau hwn yn eu cael ar staff sy'n agos fod wedi'u blino'n lân.</p> <p>Gofynnodd MB a oedd trydedd don i'w disgwyl dros y Nadolig. Hysbysodd AH bartneriaid y rhagwelir cynnydd sylweddol yn ogystal â'r angen i ddefnyddio capasiti ym mis Ionawr. Cadarnhaodd FK y rhagwelir cynnydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio'r model rhesymol senario gwaethaf. Rhagwelir y bydd yn brys iawn ar draws pob sector ym mis Ionawr a mis Chwefror gan fod y gaeaf yn gyfnod heriol bob blwyddyn. Atgoffodd FK bartneriaid fod pellter aros o 2 wythnos rhwng bod mesurau cyfyngol ar waith ac effaith amlwg ar y ffigyrau. Bydd natur brig y dyfodol yn newid ychydig wrth i'r dangosfwrdd iechyd cyhoeddus ddangos gwahaniaethau ym mhob rhanbarth.</p> |  |
| <p><b>8. Trafodaeth ar Fynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd</b></p>   |  |

|   |   |
|---|---|
| <p>Arweiniodd ND y drafodaeth gan hysbysu partneriaid mai'r nod yw cytuno ar Siarter Newid yn yr Hinsawdd y BGC i'w lansio'n ffurfiol ym mis Chwefror 2021. Gofynnwyd i bartneriaid edrych dros y Siarter ddrafft i wirio ei bod yn darllen ar draws gwahanol gynlluniau trefniadaeth ac ati. Mae'r Siarter wedi'i thrafod yn y BGC o'r blaen ac mae angen iddi barhau'n graff, â ffocws ac yn strategol. Hysbysodd HM bartneriaid y cafwyd ymateb da i'r Siarter a thynnodd sylw at rai newidiadau a awgrymwyd. Roedd y rhain i gynnwys o dan Arweiniad drwy Enghraifft 'gweithredu fel dinasyddion lleol', newid cyfeiriad at gerbydau hybrid i gerbydau carbon isel ac ychwanegu cyfeiriad at fod yn fwy caredig i'r amgylchedd a bod yn iachach a chynnwys y nod o weithio tuag at adeiladau newydd yn sero carbon net. Cytunodd partneriaid i'r newidiadau a awgrymwyd.</p> <p>Mae AH wedi defnyddio'r Siarter ddrafft fel enghraifft yng Nghynllun Gweithredu Cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd a byddai'n hapus iawn i gefnogi'r gwaith hwn. Tynnodd JC sylw at y ffaith bod Map Llwybr Strategol y Sector Cyhoeddus i Ddatgarboneiddio yn cyd-fynd yn dda â'r Siarter. Bydd JC yn dosbarthu'r map i gydweithwyr. Hysbysodd HM bartneriaid fod y Siarter ddrafft wedi'i thrafod yng Ngrŵp Rheoli Asedau'r BGC lle'r oedd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn bwyo'r Siarter yn ôl yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol ac yn cefnogi'r dull gweithredu.</p> <p>Holodd ND a oedd gwerth o ran sefydlu is-grŵp i gydgylltu cymeradwyaethau sefydliadau partneriaid. Roedd partneriaid o blaid y dull hwn.</p> <p>Nododd JC y bydd rhai grwpiau pwyso yn canolbwyntio ar y Siarter ac awgrymodd ddatblygu pwyntiau strwythuredig i gefnogi'r camau gweithredu a adlewyrchir. Cytunodd ND a nododd y byddai'r is-grŵp yn nodi hyn. Cytunodd RT ac awgrymodd y dylid adolygu'r Siarter yn rheolaidd a dylid adrodd ar gynnydd yn ôl i'r BGC yn rheolaidd. Ategir y Siarter gan ddata sy'n cefnogi'r camau gweithredu awgrymedig ac er bod y camau gweithredu ar lefel uchel, gellir eu defnyddio i ganolbwyntio gwaith mwy penodol ym mhob sefydliad, yn unol â Siarter Teithio Iach Staff y BGC a lofnodwyd yn flaenrol gan bartneriaid.</p> <p>Cytunodd partneriaid i fynd â'r Siarter yn ôl drwy sefydliad unigol i'w chymeradwyo yn barod ar gyfer y lansiad ym mis Chwefror. Bydd yr is-grŵp yn cael ei sefydlu ym mis Ionawr.</p> | <p><b>JC</b></p> <p><b>ND/HM</b></p> <p><b>Pawb</b></p> |
| <p><b>9. Y Flaenraglen Waith</b></p> <p>Darparodd TB drosolwg i bartneriaid o'r rhaglen waith ar gyfer 2021 gan dynnu sylw at ddychwelyd y Siarter Newid yn yr Hinsawdd ym mis Chwefror a phresenoldeb y Comisiynydd Pobl Hŷn yng nghyfarfod mis Ebrill i drafod gwaith sy'n Ystyriol o Oedran yn ogystal ag eitemau agenda ar ddatblygu'r Asesiad Llesiant a'r Adroddiad Blynyddol cyn eu llofnodi ym mis Gorffennaf.</p> <p>Awgrymodd RT y dylid cadw diweddariadau COVID-19 ar y flaenraglen waith hyd yn oed wrth i ffigyrau wella gan y bydd y pwyslais yn symud mwy tuag at adferiad a gweithio mewn partneriaeth wrth i ni symud ymlaen.</p> <p>Croesawodd TB y partneriaid i gysylltu ag ef neu HM pe bai unrhyw eitemau ganddynt yr hoffent eu trafod mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol.</p>  |   |

|  |  |
|--|--|
| <p><b>10. Unrhyw fater arall</b></p> <p>Hysbysodd TB bartneriaid ymgynghoriad Cyngor Bro Morgannwg ar Gynllun Cyflawni Blynnyddol drafft 2021/22 sy'n nodi ymrwymiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r Cynllun Corfforaethol cyn bo hir. Darperir gwybodaeth i bartneriaid cyn bo hir a byddai unrhyw adborth yn cael ei groesawu erbyn mis Ionawr.</p> |  |
| <p><b>11. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5<sup>ed</sup> Chwefror 2021, 10:30am – 12:30pm drwy Microsoft Teams</b></p>  |  |